# Pleidleisiau a Thrafodion – Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr – Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 22 Mehefin 2016

Amser y cyfarfod: 13.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/3611

# 8

## 1 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd cwestiynau 1 i 11 a 13. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl cwestiwn 2.

## 2 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant

Dechreuodd yr eitem am 14.15

Gofynnwyd y 15 cwestiwn. Cafodd cwestiynau 5 a 7, a 10 a 15 eu grwpio i'w hateb gyda'i gilydd. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl cwestiwn 2.

## 3 Cynnig i gynnig teitlau a chylch gwaith pwyllgorau

Dechreuodd yr eitem am 15.08

**NDM6031** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 16.1:

1. Yn sefydlu Pwyllgor Cyllid i gyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol fel y'u nodir yn Rheol Sefydlog 19; swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol fel y'u nodir yn Rheolau Sefydlog 18.10 ac 18.11; ac ystyried unrhyw fater arall yn ymwneud â Chronfa Gyfunol Cymru.

2. Yn sefydlu Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i gyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol fel y'u nodir yn Rheolau Sefydlog 18.2 and 18.3 ac ystyried unrhyw fater arall yn ymwneud â pha mor ddarbodus, effeithlon ac effeithiol y cafodd adnoddau eu defnyddio wrth gyflawni swyddogaethau cyhoeddus yng Nghymru.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 4 Cynnig i ethol aelodau i bwyllgor

Dechreuodd yr eitem am 15.08

**NDM6049** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.3, yn ethol:

(i) Mike Hedges (Llafur Cymru), Eluned Morgan (Llafur Cymru), Jeremy Miles (Llafur Cymru), Simon Thomas (Plaid Cymru), Adam Price (Plaid Cymru), Nick Ramsay (Ceidwadwyr Cymreig) a Mark Reckless (Plaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig) yn aelodau o'r Pwyllgor Cyllid; a

(ii) Simon Thomas (Plaid Cymru) yn Gadeirydd dros dro y Pwyllgor Cyllid.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 5 Dadl Plaid Cymru

Dechreuodd yr eitem am 15.09

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM6029** Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi'r heriau i'r gwasanaeth iechyd o ran gofalu am boblogaeth hŷn.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) symud ymlaen gyda mwy o integreiddio rhwng iechyd a gofal cymdeithasol; a

b) cynyddu nifer y meddygon teulu, gan ganolbwyntio ar recriwtio i gymunedau gwledig ac ardaloedd o amddifadedd.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 33 | 4 | 11 | 48 |

**Derbyniwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

## 6 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig

Dechreuodd yr eitem am 16.14

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

NDM6032 Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod y rôl y mae llywodraeth leol yn ei chwarae o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus i gymunedau ledled Cymru.

2. Yn nodi â phryder yr ansicrwydd y mae diffyg eglurder ynghylch diwygio llywodraeth leol yn ei gael o ran darparu gwasanaethau effeithiol.

3. Yn cydnabod bod angen gwneud mwy i fynd i'r afael â difaterwch pleidleiswyr yng Nghymru, o gofio bod nifer y bobl a wnaeth fwrw pleidlais yn etholiadau llywodraeth leol Cymru yn 2012 yn isel, sef cyfartaledd o 38.9 y cant, a oedd bedwar y cant yn is na'r nifer a bleidleisiodd yn yr etholiadau lleol yn 2008.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i amlinellu amserlen dros dro ar gyfer ei chynlluniau i ddiwygio awdurdodau lleol Cymru, ac i gymryd rhan mewn proses ymgynghori gadarn.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 37 | 5 | 7 | 49 |

**Derbyniwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

## 7 Dadl Plaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig

Dechreuodd yr eitem am 17.16

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

**NDM6030** Neil Hamilton (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn credu y byddai Cymru'n gryfach, yn ddiogelach ac yn fwy llewyrchus pe byddai'n gadael yr Undeb Ewropeaidd.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 10 | 0 | 38 | 48 |

**Gwrthodwyd y cynnig.**

## 8 Cyfnod pleidleisio

Dechreuodd yr eitem am 18.14

## 9 Dadl Fer

Dechreuodd yr eitem am 18.17

**NDM6033** Julie Morgan (Gogledd Caerdydd)

Aros neu adael?

Pa ffactorau sydd wedi dylanwadu ar y farn gyhoeddus o ran ymgyrch refferendwm yr UE?

Daeth y cyfarfod i ben am 18.43

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 28 Mehefin 2016**